

I'ch helpu gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych gyda'ch cais, dylech ddarparu rhif ffon a chyfeiriad e-bost. Os na allwch ddarparu eich manylion cyswllt eich hun, gallwch roi manylion ffrind, perthynas new gyswllt arall, mae hyn yn rhoi eu caniatad I ddefnyddio eu manylion a byddwch yn rhoi eich caniatad I ni ddarparu eich wybodaeth iddynt.

Ffon cartref

Ffon symudol

Eich cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad e-bost rhywun y gallwn gysylltu a os oes gennym ymholiadau

Llun

Rhowch ffotograff pasport diweddar a chlir gyda'ch cais ac ysgrifennwch eich enw a'ch dyddiad geni ar y cefn.

Rwyf wedi atodi llun pasport

Tystiolaeth o gymhwysedd

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ddarparu dau brawf o gyfeiriad yng Nghymru ac un prawf o oedran.

Dewisiadau cyfathrebu a marchnata

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y broses o weinyddu'r cynllun gan ddefnyddio'r manylion cysylltu a ddarparwyd gennych.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr cludiant i drawsnewid trafndiaeth gyhoeddus. Hoffem eich hysbysu o ddatblygiadau newydd cyffrous, gan roi gwybod i chi am wasanaethau newydd a gwell, disgowntiau, cynigion arbennig a gwybodaeth arall er mwyn i chi gael y gorau o drafnidiaeth gyhoeddus.

Os hoffech glywed gennym ni neu ein partneriaid, rhowch wybod i ni â phwy yr hoffech glywed gennych a sut y byddai'n well gennych dderbyn gwybodaeth drwy dicio'r blychau isod.

Os byddwch yn rhoi caniatâd i'n partneriaid gysylltu â chi, byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt gyda'r partner/wyr perthnasol at y diben hwn.

Pwy fydddech chi'n hapus i glywed ganddynt? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Trafnidiaeth Cymrus Cyngor Ddinas Casnewydd Llywodraeth Cymru
- Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru am gynigion sy'n ymwneud â theithio ar y rheilffyrdd neu newidiadau i wasanaethau
- Cwmnïau bysiau ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â theithio ar

Sut hoffech chi dderbyn y newyddion diweddaraf? Ticiwch gynifer ag y dymunwch

- E-bost Galwad ffon
- Neges destun i (ffôn symudol) Gan post

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018

Byddwn yn defnyddio eich data personol a ddarparwyd gennych yma yn unol â pholisi preifatrwydd y Cerdyn Teithio Rhatach. Mae hwn ar gael gan eich cyngor. Mae polisi preifatrwydd trafndiaeth i Gymru ar gael yn www.tfw.gov.wales/cy/cerdynteithio neu ysgrifennu i Traveline Cymru,

PO Box 83, CF11 1NA.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Defnyddiwn ddata yn bennaf:

1. Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol: fel awdurdod trafndiaeth, mae gofyniad cyfreithiol arnom o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i roi Cardiau Teithio Rhatach i unigolion sydd â'r hawl i'w cael, ac felly mae'r rhan fwyaf o'n prosesu at ddiben bodloni'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon.
2. I gyflawni tasg gyhoeddus: er enghraifft, i sicrhau bod y cynllun cerdyn consesiynol yn cael ei weinyddu'n effeithlon.

Caiff eich data ei storio'n ddiogel mewn system genedlaethol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru (a'u darparwyr gwasanaethau) at ddibenion gweinyddu'r cynllun teithio rhatach. Gall gweithredwyr bysiau gael gafael ar rif eich cerdyn i hawlio ad-daliad pan fyddwch yn defnyddio'ch cerdyn.

Nid ydym fel arfer yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol.

Byddwn hefyd yn defnyddio'ch data personol i anfon cyfathrebiadau marchnata atoch, os ydych yn cydsynio i ni wneud hynny. Dim ond lle rydych yn cytuno i'w dderbyn y byddwn yn anfon eich marchnata, a gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd drwy gysylltu â ni.

Mae eich hawliau cyfreithiol i ofyn am gael gweld gwybodaeth gywir a'i dileu wedi'u nodi yn ein polisi preifatrwydd.

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a roddir uchod yn gywir ac yn deall, os canfyddir bod unrhyw fanylion yn anwir, y caiff fy ngherdyn ei ganslo, ac efallai y bydd yn rhaid i mi dalu unrhyw gostau sy'n codi o'r mater neu ddefnyddio'r pas

Llofnod

Dyddiad / /

Arweiniad

Canllawiau ar dystiolaeth i gefnogi ceisiadau Cardiau Teithio Rhatach 60 a drosodd

Canllawiau i gefnogi ymgeiswyr ar y dystiolaeth sydd angen

Pa dystiolaeth sydd angen ei chyflwyno?

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am Gerdyn Teithio Rhatach mae angen i chi ddarparu tystiolaeth fel y gallwn wirio eich bod chi'n gymwys i dderbyn un. Mae'r dystiolaeth sy'n ofynnol yn wahanol yn dibynnu ar ba fath o gerdyn rydych chi'n gwneud cais amdano.

60 oed neu Drosodd

Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o (a) eich cyfeiriad a (b) eich oedran

Newid enw

Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch enw newydd

Newid cyfeiriad

Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad newydd

Sut mae cyflwyno tystiolaeth?

Dylech gyflwyno copi clir o'r dogfennau perthnasol gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi.

Gallwch gysylltu â'ch awdurdod lleol am gymorth os nad ydych yn siŵr pa ddogfennau i'w darparu.

Peidiwch ag anfon copïau gwreiddiol atom o unrhyw un o'ch dogfennau, gan na fyddwn yn gallu eu hanfon yn ôl atoch

Tystiolaeth o gyfeiriad

Ar gyfer pob cerdyn, mae gofyn i chi gyflwyno copi o unrhyw ddau o'r canlynol:

- Bil y Dreth Gyngor neu dystiolaeth o esemptiad y Dreth Gyngor (blwyddyn ariannol gyfredol)
- Tystiolaeth o daliadau rhent (o fewn y 3 mis diwethaf)
- Trwydded yrru gyfredol
- Dogfennau budd-daliadau a phensiwn (blwyddyn ariannol gyfredol)
- Bil cyfleustodau ond nid ffôn symudol (o fewn y 3 mis diwethaf)
- Cadarnhad bod yr ymgeisydd ar y Gofrestr Etholiadol ar gyfer Etholiadau Seneddol y DU
- Cadarnhau bod yr ymgeisydd ar Gofrestr yr Ysgol
- Tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn ddibynnydd person sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol
- Tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu asiantaeth gymeradwyedig ac yn byw yn ardal yr awdurdod lleol
- Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cofrestru'n barhaol gyda meddyg teulu lleol
- Tystiolaeth o ddogfennau gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hawl preswyllo

Dylech ddarparu copi o lythyr neu ohebiaeth gan yr asiantaeth neu sefydliad swyddogol priodol naill ai fel dogfen swyddogol neu ar bapur pennawd y sefydliad.

Tystiolaeth o oedran

Cyflwynwch gopi o un o'r canlynol:

- Pasbort cyfredol;
- Trwydded yrru gyfredol;
- Tystysgrif geni (sy'n cynnwys enw'r ymgeisydd)

Tystiolaeth o newid enw

Cyflwynwch gopi o ddogfen gyfreithiol sy'n dangos yn glir beth yw'r enw newydd a'r cyswllt â'r enw blaenorol, fel tystysgrif priodas neu weithred newid enw.